Camymddwyn Academaidd - Cwestiynau Cyffredin

Beth yw camymddwyn academaidd?

Mae Rheoliadau Camymddwyn Academaidd Prifysgol De Cymru yn diffinio camymddwyn academaidd fel:
'*unrhyw weithred neu ymgais i weithredu a allai arwain at greu mantais neu anfantais academaidd annheg i unrhyw aelod(au) arall o'r gymuned academaidd* '. Mae hyn yn cynnwys llên-ladrad, twyllo, twyllo drwy gontract, ffugio, ailgylchu gwaith a chydgynllwynio.

Yn aml, bydd datblygu eich gwybodaeth yn gofyn i chi ystyried gwaith academyddion a chymheiriaid eraill. Er enghraifft, pe baech chi'n dadansoddi gwaith celf enwog, neu ddarn o gerddoriaeth, byddai'n gwneud synnwyr darganfod beth mae eraill wedi'i ysgrifennu am y pwnc, yn ogystal â ffurfio eich barn eich hun er mwyn datblygu a dangos eich sgiliau dadansoddi beirniadol. Mae deall sut i ddefnyddio gwaith eraill, gan gynnwys gwaith eich cymheiriaid, i ddatblygu eich mewnwelediadau eich hun i bwnc yn sgil broffesiynol bwysig. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol defnyddio gwaith eraill heb y gydnabyddiaeth gywir eich bod chi'n gwneud hynny ar ffurf cyfeirio.

Yn y cyd-destun hwn, diffinnir 'gwaith' fel geiriau, syniadau neu allbwn creadigol. Mae hyn yn cynnwys gwaith sydd wedi'i gyhoeddi neu heb ei gyhoeddi ac yn cynnwys deunydd o'r rhyngrwyd. Felly, pryd bynnag y byddwch chi'n cynnwys gwaith pobl eraill yn eich gwaith eich hun, rhaid i chi bob amser gyfeirio at hyn. Mae cyfeirio cywir yn sicrhau eich bod chi'n cydnabod crewyr gwreiddiol y gwaith ac yn defnyddio eu gwaith a'u barn mewn modd priodol a moesegol. Yn ystod eich astudiaethau, disgwylir i chi ddilyn confensiynau academaidd proffesiynol ac arddulliau cyfeirio (e.e. dull cyfeirio Harvard). Bydd y sgil hon yn cael ei dysgu fel rhan o'ch cwrs, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ac arweiniad ar wefan PDC yma. O ganlyniad, os na fyddwch chi'n cyfeirio'n gywir wrth gyflwyno gwaith, gellid ystyried hyn naill ai'n arfer academaidd gwael neu, mewn achosion mwy difrifol, fel camymddwyn academaidd, y mae cosbau amdano. Gallai'r cosbau hyn effeithio'n ddifrifol ar eich canlyniadau terfynol neu ddosbarthiad eich gradd. Gallant hyd yn oed effeithio ar y posibilrwydd o aros ar y cwrs, o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol.

Dyma'r prif gategorïau o gamymddwyn academaidd:

- Llên-ladrad – cymryd gwaith rhywun arall a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun.
- Twyllo – pan fyddwch chi'n ymddwyn yn anonest cyn / yn ystod / ar ôl arholiad.

- Twyllo drwy Gontract – e.e. gofyn i rywun arall ysgrifennu asesiad i chi (fel arfer trwy eu talu) a'i gyflwyno fel eich un chi
- Ffugio – ffugio/ystumio data/tystiolaeth/canlyniadau ac ati a defnyddio hyn fel rhan o asesiad
- Ailgylchu – a elwir weithiau'n 'hunan-lên-ladrad', pan fyddwch chi'n cyflwyno gwaith rydych chi eisoes wedi'i ddefnyddio o'r blaen mewn cyd-destun arall
- Cydgynllwynio – pan fyddwch chi'n gweithio gyda myfyriwr arall i gynhyrchu gwaith, neu ran o'ch gwaith, ac mae'r ddau ohonoch yn ei gyflwyno fel eich gwaith unigol. Mae hyn yn cynnwys os ydych chi'n rhannu'ch gwaith gyda myfyriwr arall ac mae'n arwain at y ddau ohonoch yn cyflwyno gwaith tebyg, hyd yn oed os nad eich bwriad oedd iddynt eich copïo (neu i'r gwrthwyneb). Mae rhai achosion lle mae gweithio gyda'ch gilydd yn cael ei ganiatáu gan eich tiwtor ac yn briodol, ond byddai hyn wedi'i wneud yn glir iawn i chi.

Gallwch ddod o hyd i fanylion pellach am y gwahanol fathau o gamymddwyn academaidd yn y Rheoliadau Uniondeb Academaidd a'r Weithdrefn Uniondeb Academaidd.

Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gellir diffinio llên-ladrad fel pan fyddwch chi'n cymryd gwaith neu syniadau rhywun arall ac yn eu trosglwyddo fel eich rhai eich hun, heb gydnabyddiaeth, er enghraifft, trwy gopïo neu aralleirio heb gydnabod.
- Cyflwyno sgript asesu fel eich gwaith eich hun pan fydd y sgript yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd drwy ddulliau anawdurdodedig, neu a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â rhywun arall, ond eich bod chi'n ei gyflwyno fel eich gwaith unigol eich hun.
- Cyflwyno gwaith sydd wedi'i gynhyrchu gan ac/neu wedi'i brynu gan rywun arall a'i gyflwyno fel eich gwaith eich hun.
- Cyflwyno mewn ystafell arholiad unrhyw ddeunydd anawdurdodedig fel llyfr, llawysgrif, data neu bapurau rhydd, gwybodaeth a gafwyd trwy ddyfais electronig neu unrhyw ffynhonnell o wybodaeth anawdurdodedig.
- Cyflwyno darn o waith sy'n cynnwys data, tystiolaeth, cyfeiriadau neu ganlyniadau wedi'u ffugio/sy'n gelwydd.

Am restr fwy cyflawn, cyfeiriwch at y rheoliadau yma: Camymddwyn Academaidd ac Uniondeb Academaidd - Prifysgol De Cymru

Beth yw Arfer Academaidd Gwael?

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall myfyrwyr gamymddwyn yn academaidd yn anfwriadol drwy arfer academaidd gwael, yn enwedig pan fyddant ar ddechrau eu blwyddyn gyntaf ac efallai nid mor gyfarwydd ag ysgrifennu academaidd. Mae arfer academaidd gwael yn

digwydd pan fydd myfyrwyr yn paratoi darn o waith yn wael ar gyfer asesiad. Gellir trin achosion dro ar ôl tro o arfer academaidd gwael fel camymddwyn academaidd, gan fod disgwyl i fyfyrwyr ddysgu o adborth ac arweiniad blaenorol .

Pwy sy'n gwneud yr honiad o gamymddwyn academaidd?

Yn dibynnu ar natur yr honiad, efallai mai'r unigolyn a oedd yn marcio'ch gwaith, Arweinydd y Modiwl, y goruchwyliwr, neu aelod arall o staff, sydd â rheswm i gredu bod camymddwyn academaidd wedi digwydd. Lle bo modd, os codwyd unrhyw bryderon ynghylch eich gwaith, bydd eich tiwtor neu Arweinydd y Modiwl yn eich gwahodd i gyfarfod cychwynnol yn gyntaf i drafod y pryderon hyn.

Beth yw rôl y Swyddog Uniondeb Academaidd (AIO)?

Os amheuir eich bod wedi cyflawni camymddwyn academaidd, bydd ffurflen honiad yn cael ei hanfon ymlaen gan eich tiwtor / Arweinydd Modiwl at Swyddog Uniondeb Academaidd. Mae Swyddogion Uniondeb Academaidd yn ystyried pob honiad yn y lle cyntaf yn ystod adolygiad cychwynnol ac yn cadarnhau a oes achos yn bodoli ar ran y Brifysgol. Cewch wybod bod yr achos wedi'i gyfeirio a chewch gyfle i gyflwyno datganiad a thystiolaeth, o fewn amserlen benodol.

Mae pum opsiwn ar gael i'r Swyddog Uniondeb Academaidd:

- Gallant benderfynu nad oes achos i'w ateb, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd.
- Os ydyn nhw'n ystyried bod yr achos yn enghraifft o arfer academaidd gwael, byddwch chi'n cael eich cyfeirio at y Gwasanaeth Datblygu Dysgwyr. Lle bo'n briodol, gellir hysbysu eich hyfforddwr academaidd personol o'r atgyfeiriad hefyd. Ni fydd angen i chi gyfarfod â'r Swyddog Uniondeb Academaidd yn yr achos hwn.
- Os yw'r Swyddog Uniondeb Academaidd yn ystyried bod achos posibl o gamymddwyn academaidd, byddwch naill ai'n cael eich gwahodd i gyfarfod eithriadol, neu byddwch yn cael penderfyniad cychwynnol, y gallwch ei dderbyn neu ei wrthod o fewn amserlen benodol. Os byddwch yn gwrthod y penderfyniad, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod gyda'r Swyddog Uniondeb Academaidd a byddwch eto'n cael yr opsiwn i gyflwyno datganiad ysgrifenedig a thystiolaeth.

- Os bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd yn penderfynu bod eich achos posibl o gamymddwyn academaidd yn gymhleth / yn fwy difrifol, gellir cyfeirio eich achos yn uniongyrchol at y Panel Uniondeb Academaidd.

Mae gan y Swyddog Uniondeb Academaidd **20 diwrnod gwaith** o'r dyddiad y codir yr honiad gyda thîm y Gofrestrfa Academaidd, i benderfynu ar y canlyniad priodol. Os yw'r canlyniad yn golygu bod eich achos yn cael ei gyfeirio at Banel Uniondeb Academaidd y Brifysgol, yna bydd hwn yn cael ei gynnull o fewn **20 diwrnod gwaith pellach** i benderfyniad y Swyddog Uniondeb Academaidd yn cael ei gyfleu i chi a'ch achos yn cael ei gyfeirio at y Panel.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses yn y cam hwn, dylech gysylltu â thîm y Gofrestrfa Academaidd drwy academic.integrity@southwales.ac.uk / neu drwy'r manylion cyswllt yn y cyfathrebiad a gawsoch.

Pa dystiolaeth sydd gennych chi?

Anfonir copïau o ffurflen yr honiad ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gyda'r ffurflen hon atoch. Bydd y dystiolaeth hon hefyd yn cael ei darparu i'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd. Gellir cyflwyno tystiolaeth ychwanegol i'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd ar ddiwrnod y cyfarfod, ond dim ond gyda chaniatâd penodol y Swyddog Uniondeb Academaidd / Cadeirydd y Panel Uniondeb Academaidd. Rhoddir copïau o unrhyw dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd cyn unrhyw gyfarfod i chi hefyd.

Rwyf wedi cael copïau o Adroddiad Turnitin; beth yw hwn?

Mae llawer o gyrsiau yn gofyn i fyfyrwyr gyflwyno copïau electronig o'u haseiniad/gwaith cwrs/traethawd hir drwy feddalwedd Turnitin. Mae'r feddalwedd hon yn cynhyrchu adroddiad, a all nodi unrhyw gyfatebiaethau â ffynonellau a gedwir yn ei chronfa ddata. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Dydw i ddim wedi defnyddio'r ffynhonnell a nodwyd yn Adroddiad Turnitin / mae'r adroddiad yn dweud fy mod i wedi defnyddio gwaith a gyflwynwyd gan fyfyrwyr mewn prifysgolion eraill, nad oedd gen i fynediad ato.

Mae meddalwedd Turnitin yn canfod patrymau testun yn eich gwaith sy'n cyfateb i'r ffynonellau a gedwir ar ei gronfa ddata, neu'n debyg iddynt.

Er enghraifft, gall y feddalwedd baru eich gwaith â gwaith myfyriwr mewn Prifysgol arall nad ydych erioed wedi cael cysylltiad ag ef. Gellir esbonio hyn gan y ffaith eich bod chi a'r myfyriwr arall wedi defnyddio'r un ffynhonnell wreiddiol ar gyfer eich gwaith. Y mater pwysig yw a yw'r ffynhonnell wreiddiol rydych chi wedi'i defnyddio wedi'i chydnabod / ei chyfeirio'n briodol yn eich gwaith. Os oes gennych gopïau o'r ffynonellau gwreiddiol a ddefnyddiwyd gennych, dylech ddod â'r rhain gyda chi i'r gwrandawiad.

Oes gen i'r hawl i gyflwyno tystiolaeth?

Oes. Dylech hysbysu'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd drwy dîm y Gofrestrfa Academaidd cyn gynted â phosibl os ydych am gyflwyno tystiolaeth. Dim ond gyda chaniatâd penodol y Swyddog Uniondeb Academaidd / Cadeirydd y Panel Uniondeb Academaidd y caniateir cyflwyno unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd ar ddiwrnod y cyfarfod.

Gwnewch yn siŵr, os yw eich tystiolaeth mewn iaith nad yw'n Gymraeg neu'n Saesneg, eich bod hefyd yn cael cyfieithiad o'r ddogfen.

Mae Rheoliad Camymddwyn Academaidd 3.9 yn nodi:

- Ni ellir defnyddio amgylchiadau esgusodol fel cyfiawnhad dros dorri uniondeb academaidd.

Fodd bynnag, mae 7.1.1 yn nodi y bydd y Brifysgol yn ystyried tystiolaeth o ffactorau lliniarol wrth benderfynu ar gosb briodol.

Oes rhaid i mi fynd i'r cyfarfod gyda'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd?

Na, nid oes rhaid i chi fynd i'r cyfarfod. Fodd bynnag, oherwydd difrifoldeb posibl yr honiad, fe'ch cynghorir yn gryf i fynd a manteisio ar y cyfle i gyflwyno'ch achos. Os nad ydych am fynd, rhaid i chi hysbysu tîm y Gofrestrfa Academaidd drwy'r cyfeiriad e-bost academic.integrity@southwales.ac.uk, sydd yn yr ohebiaeth a dderbynioch yn flaenorol. Ni allwch anfon unrhyw unigolyn arall i'r cyfarfod ar eich rhan. Gallwch hefyd gyflwyno datganiad ysgrifenedig, os nad ydych am fynd i'r cyfarfod.

Beth os na allaf fynd ar y dyddiad a roddir?

Os ydych am fynd i'r cyfarfod / gwrandawiad ond yn methu mynd ar y dyddiad penodedig, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyfarfod Teams, yna gallwch ofyn am ddyddiad diwygiedig. Sylwch mai dim ond unwaith y bydd y cyfarfod yn cael ei aildrefnu. Dylech hysbysu tîm y Gofrestrfa Academaidd o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod gwreiddiol os oes angen dyddiad arall arnoch. Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Teams.

A fydd fy achos yn cael ei glywed os na fyddaf yn mynd?

Bydd. Os ydych chi wedi rhoi gwybod i ni nad ydych chi eisiau / nad ydych chi'n gallu mynd, neu os ydym ni wedi gwneud pob ymdrech resymol i gysylltu â chi ac nad ydych chi wedi ymateb, bydd y cyfarfod yn mynd rhagddo yn eich absenoldeb.

A allaf ddod â rhywun gyda mi i'r cyfarfod?

Gallwch, fe allwch ddod ag Unigolyn Cymorth gyda chi i unrhyw drafodaethau, cyfarfodydd neu wrandawiadau, er enghraifft cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, neu os yw'n well gennych, gallwch ddod â ffrind am gefnogaeth foesol. Gofynnir i chi roi enw'r unigolyn sy'n dod gyda chi i'r Gofrestrfa Academaidd cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na 48 awr cyn y cyfarfod. Rôl yr unigolyn cymorth yw eich cefnogi, nid cynrychioli, eiriol, na siarad ar eich rhan, oni bai bod cymeradwyaeth ymlaen llaw wedi'i rhoi.

A yw'r Brifysgol yn darparu cyfieithwyr ar y pryd i fyfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf?

Nac ydi, nid yw'r Brifysgol yn darparu cyfieithwyr. Cynhelir y gwrandawiad yn Saesneg (neu'n Gymraeg os gofynnir amdano).

Oes unrhyw gefnogaeth ar gael i mi?

Oes. Mae Undeb y Myfyrwyr ar gael i'ch cynghori a'ch helpu gyda'ch achos; mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr (https://www.uswsu.com). Gall myfyrwyr hefyd geisio cymorth gan yr Ardal Gynghori, sydd wedi'i leoli ar bob campws a gellir cysylltu â nhw ar-lein (https://www.southwales.ac.uk/cy/myfyrwyr-presennol/ardal-gynghori/). I gael rhagor o gyngor ar y rheoliadau/gweithdrefnau, neu i gael cyngor ar rôl y Swyddog Uniondeb Academaidd / cyfarfod Panel Uniondeb Academaidd, dylech gysylltu â thîm y Gofrestrfa Academaidd drwy'r cyfeiriad e-bost a oedd yn eich llythyr cychwynnol.

Pwy arall fydd yn y cyfarfod a'r gwrandawiad?

Os cewch eich gwahodd i gyfarfod â Swyddog Uniondeb Academaidd, byddant yn bresennol gyda chi; unrhyw un rydych chi wedi gofyn iddynt ddod i'ch cefnogi; ac aelod staff o dîm y Gofrestrfa Academaidd, a fydd yn cymryd nodiadau o'r cyfarfod.

Os cewch eich gwahodd i fynd i wrandawiad o Banel Uniondeb Academaidd y Brifysgol, bydd y Panel yn cynnwys dau aelod academaidd o staff o'r Bwrdd Camymddwyn Academaidd a Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu enwebai).

Bydd y sawl a gododd yr achos o gamymddwyn academaidd a amheuir hefyd yn cael gwahoddiad i fod yng nghyfarfod y Panel Uniondeb Academaidd, fel arfer Arweinydd y Modiwl. Bydd aelod o dîm y Gofrestrfa Academaidd yn cymryd nodiadau o'r cyfarfod.

Pwy yw'r tystion?

Gall tystion fod yn oruchwylwyr neu'n aelod o staff academaidd o'ch ysgol neu faes pwnc, neu'r Swyddog Uniondeb Academaidd a ystyriodd yr achos. Rhoddir cyfle i chi holi unrhyw dystion sy'n bresennol a byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl cael eu holi.

Pwy sy'n galw'r tystion?

Bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd yn trefnu eu tystion eu hunain. Caniateir i chi hefyd alw unrhyw dystion i gefnogi eich achos. Rhaid i chi drefnu eich tystion eich hun a hysbysu tîm y Gofrestrfa Academaidd o'u henwau cyn gynted â phosibl drwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir mewn cyfathrebiadau atoch.

Beth sy'n digwydd yn ystod y cyfarfod/gwrandawiad?

Cyfarfod y Swyddog Uniondeb Academaidd

Bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd yn egluro pam eich bod wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod ac yn eich gwahodd i ymateb i'r honiad – h.y. a ydych chi'n derbyn yr honiad ai peidio? Bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd wedi ceisio gwybodaeth, os oes angen, gan y tiwtor sy'n adrodd / Arweinydd y Modiwl cyn cyfarfod â chi.

Byddwch wedi derbyn copïau o unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Swyddog Uniondeb Academaidd cyn y cyfarfod.

Rhoddir cyfle i chi wneud sylwadau ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Swyddog Uniondeb Academaidd. Gallwch hefyd gyflwyno unrhyw dystiolaeth arall cyn y cyfarfod, neu ar y diwrnod gyda chaniatâd y Swyddog Uniondeb Academaidd. Pan fydd y cwestiynu a chyflwyno tystiolaeth wedi'u cwblhau, gofynnir i chi adael a bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd yn ystyried y dystiolaeth. Yna byddant yn penderfynu a yw'r honiad wedi'i gadarnhau ac yn penderfynu, mewn achosion priodol, ar y gosb i'w gosod. Cewch wybod am y canlyniad yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod. Mewn rhai achosion, gall y Swyddog Uniondeb Academaidd hefyd ddewis rhoi canlyniad ar lafar yn ystod y cyfarfod os ydynt yn credu bod yr achos yn syml ac nad oes angen ystyriaeth bellach. Mae hyn yn ôl disgresiwn y Swyddog Uniondeb Academaidd.

Cyfarfod y Panel Uniondeb Academaidd

Bydd Cadeirydd y Panel Uniondeb Academaidd yn egluro pam eich bod wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod ac yn eich gwahodd i ymateb i'r honiad – h.y. a ydych chi'n derbyn yr honiad ai peidio? Byddwch wedi derbyn copïau o unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Panel Uniondeb Academaidd cyn y cyfarfod.

Bydd yr aelod o staff academaidd a gododd yr honiad yn cael ei wahodd i esbonio i'r Panel pam eu bod wedi codi'r honiad. Gall Cadeirydd y Panel hefyd alw tystion, fel y bo'n briodol. Yna rhoddir cyfle i chi roi eich persbectif ar yr honiad drwy wneud datganiad, drwy holi tystion neu drwy alw eich tystion eich hun. Fel arfer, bydd tystion yn gadael y cyfarfod ar ôl cael eu holi.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Panel Uniondeb Academaidd. Gallwch hefyd gyflwyno unrhyw dystiolaeth arall gyda chaniatâd Cadeirydd y Panel Uniondeb Academaidd.

Pan fydd y Panel wedi clywed a gweld yr holl dystiolaeth, gofynnir i chi adael y cyfarfod a bydd y Panel yn cymryd amser i ystyried popeth a gyflwynwyd. Yna bydd y Panel yn penderfynu a yw'r honiad wedi'i gadarnhau ac yn penderfynu, lle bo'n briodol, ar y gosb i'w gosod. Byddwch yn cael gwybod am y canlyniad yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod.

A allaf ofyn unrhyw gwestiynau?

Gallwch. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ystod y gwrandawiad, naill ai'n ymwneud â'r trafodaethau neu â'r achos ei hun, gallwch eu gofyn. Gallwch hefyd holi tystion.

A fyddaf yn cael cyfle i esbonio beth sydd wedi digwydd?

Byddwch. Byddwch yn cael gwahoddiad i roi eich cyfrif o'r hyn sydd wedi digwydd.

A allaf hysbysu'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd am unrhyw amgylchiadau esgusodol a allai fod wedi effeithio arnaf?

Gallwch. Dylech hysbysu'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd am unrhyw amgylchiadau esgusodol neu amgylchiadau personol a allai fod yn gysylltiedig â'r camymddwyn academaidd. Er na ellir ei ddefnyddio fel cyfiawnhad dros gyflawni camymddwyn academaidd, gellir ei ystyried yn ffactor lliniarol wrth benderfynu ar gosb (os yw'n berthnasol). Lle bo modd, dylech ddarparu dogfennaeth ategol ar gyfer eich amgylchiadau esgusodol e.e. tystysgrif feddygol.

Lle gallech fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau o'r fath i'r Swyddog Uniondeb Academaidd/Panel Camymddwyn Uniondeb cyn i'w penderfyniad gael ei wneud, ni ellir nodi'r amgylchiadau hynny wedi hynny fel sail i ofyn am adolygiad.

Beth yw'r canlyniadau posibl?

Bydd y Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd yn penderfynu a ydynt yn credu bod yr honiad o gamymddwyn academaidd wedi'i gadarnhau ai peidio, neu a ydynt yn teimlo eich bod wedi cyflawni arfer academaidd gwael. Mewn rhai achosion, efallai y byddant am ohirio penderfyniad tra bod tystiolaeth ychwanegol ar gael.

Pryd y byddaf yn cael gwybod am ganlyniad y Panel?

Cewch wybod am y canlyniad yn ysgrifenedig o fewn **5 diwrnod gwaith**. Bydd pob myfyriwr yn cael llythyr drwy e-bost gan dîm y Gofrestrfa Academaidd yn eu hysbysu'n swyddogol am y canlyniad. Mewn rhai achosion, gall y Swyddog / Panel Uniondeb Academaidd hefyd roi'r canlyniad i chi ar lafar ar ddiwedd eu cyfarfod os ydynt o'r farn bod hyn yn briodol.

Beth sy'n digwydd os nad oes sail i'm hachos?

Os yw'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd o'r farn nad oes sail i'r honiad, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd, ac ni fydd unrhyw gofnod o'r honiad ar eich cofnod myfyriwr.

Os caiff fy achos ei gadarnhau, sut y bydd hyn yn effeithio arnaf i?

Os yw'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd o'r farn bod yr honiad wedi'i gadarnhau, byddant yn penderfynu ar y gosb i'w gosod. Dyma'r opsiynau sydd ar gael i Swyddog Uniondeb Academaidd [**0) i 3) yn unig**] neu Banel Uniondeb Academaidd [**0) - 6)**] ac maent yn seiliedig ar ddifrifoldeb yr honiad:

0) Arfer Academaidd Gwael. Bydd y myfyriwr yn cael ei gyfeirio at wasanaethau cymorth a bydd gofyn iddo gwblhau'r modiwl Uniondeb Academaidd.
1) Rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol ynghylch ymddygiad yn y dyfodol. Cedwir y rhybudd ar gofnod personol y myfyriwr.
2) Canslo marc yr elfen asesu – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer yr elfen – mae'r modiwl cyfan wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol, ond mae'r holl farciau eraill a gyflawnir yn y modiwl yn aros yr un fath.
3) Canslo marciau ar gyfer y modiwl cyfan – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl – mae'r modiwl wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol.
4) Canslo marciau ar gyfer y modiwl cyfan – rhaid i'r myfyriwr ailgyflwyno'r gwaith ar gyfer pob elfen o'r asesiad er mwyn pasio'r modiwl – mae'r modiwl wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol. Mae pob marc modiwl ar gyfer y cam (h.y. y flwyddyn academaidd) wedi'i gapio ar y marc pasio sylfaenol.
5) Canslo pob marc modiwl ar gyfer y cam presennol – ni chaniateir i'r myfyriwr ailadrodd y flwyddyn. Caniateir i'r myfyriwr gadw'r credydau a enillwyd eisoes. Mae'r myfyriwr wedi'i dynnu'n ôl o'i gwrs ond mae'n gymwys i wneud cais am fynediad i gwrs newydd yn unol â rheoliadau derbyn y Brifysgol.
6) Gwneir argymhelliad i'r Is-Ganghellor (neu enwebai) y dylid diarddel y myfyriwr dan sylw. Gall y myfyriwr:
   i) gael ei ddiarddel gyda chredyd – caniateir i'r myfyriwr gadw credydau y mae eisoes wedi'u hennill; ni chaniateir unrhyw astudiaeth bellach yn y Brifysgol;
   ii) cael ei ddiarddel heb gredyd – caiff yr holl gredydau presennol eu dirymu; ni chaniateir unrhyw astudiaeth bellach yn y Brifysgol.

Yn ogystal ag unrhyw benderfyniad cosb a wneir o dan 1) i 6), bydd myfyriwr fel arfer hefyd yn cael ei gyfeirio at weithdy cyfeirio priodol neu diwtorial unigol yn y Gwasanaeth Datblygu Dysgwyr.

Fe'ch cynghorir i ymgynghori â'r Tariff Cosbau a geir yn y Rheoliadau Uniondeb Academaidd i weld union effaith unrhyw gosbau ar eich proffil academaidd.

Mae gan y Brifysgol yr hawl i ddirymu dyfarniad neu gredydau os darganfyddir bod camymddwyn academaidd wedi'i gyflawni er mwyn ennill y dyfarniad.

Beth os ydw i'n fyfyriwr cwrs sy'n cael ei lywodraethu gan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer?

Mewn rhai achosion gall hyn effeithio ar eich gallu i ymarfer mewn proffesiwn penodol (e.e. os ydych chi'n fyfyriwr nyrsio, bydd Pennaeth y Pwnc [neu enwebai] yn penderfynu a ddylid hysbysu'r corff proffesiynol ac a ddylid eich cyfeirio at y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer).

Beth os ydw i'n astudio prentisiaeth?

Os ydych chi'n brentis, bydd unrhyw honiadau a wneir yn eich erbyn yn dilyn yr un weithdrefn â phob myfyriwr arall yn PDC. Fodd bynnag, gellir hysbysu eich cyflogwr ar ddechrau / yn ystod / ar ddiwedd y weithdrefn am yr honiad a'r canlyniad. Yn ogystal, gellir gwahodd eich cyflogwr hefyd i unrhyw gyfarfodydd a gynhelir gyda'r Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd, fel arsylwr yn unig. Gall prentisiaid hefyd fod yn destun ymchwiliad mewnol gan eu cyflogwr ar y cyd â gweithdrefn y Brifysgol ei hun, neu yn dilyn hynny. Bydd hyn yn dibynnu ar ofynion pob cwrs a/neu gyflogwr.

A allaf ofyn am adolygiad o'r penderfyniad?

Mae gennych hawl i gyflwyno cais am adolygiad ar ôl cael gwybod am ganlyniad y Swyddog Uniondeb Academaidd / Panel Uniondeb Academaidd ar y sail ganlynol:

a) Mae gennych dystiolaeth nad oedd y gweithdrefnau wedi'u cynnal yn unol â'r rheoliadau a gallai hyn achosi amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi'i gyrraedd pe na bai'r problemau wedi digwydd.

b) Bod gwall gweinyddol wedi digwydd (er enghraifft, nid oedd yr hysbysiad o'r gosb yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod neu ei fod wedi'i gofnodi'n anghywir ar eich cofnod).

c) Gallwch ddangos bod y gosb yn anghymesur.

Rhaid cyflwyno cais am adolygiad o fewn **10 diwrnod gwaith** i hysbysiad o ganlyniad y Swyddog Uniondeb Academaidd neu'r Panel Uniondeb Academaidd, gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais am Adolygu Amheuaeth o Dorri Uniondeb Academaidd, sydd ar gael yn y ddolen we ganlynol: Camymddwyn Academaidd ac Uniondeb Academaidd

Ni dderbynnir ceisiadau am adolygiad oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion uchod.